# <u>Cyngor Cymuned Llanystumdwy</u>

## Cofnodion Rhaglen waith y Cyngor – nos Iau, 7fed o Dachwedd 2024 yn brydlon am 7:00 y.h. yn Neuadd Goffa Chwilog a drwy Zoom (roedd yn bosib cael mynediad i'r cyfarfod drwy gysylltu ar ebost gyda'r Clerc).

**Cynhaliwyd y Cyfarfod Busnes/Cyllid o flaen y prif gyfarfod am 6:30 yn y Neuadd a drwy zoom.**

**Yn bresennol** y Cynghorwyr Aled Lloyd Evans (Cadeirydd), Sian Angharad Parry, Rhys Tudur, Delyth Parry, Anwen Jones, Dylan Thomas, Euros Jones, Angela Williams, Miriam Williams, Gareth O.Davies, Tegid Jones, Aled Davies, Darren Morley, Dewi Thomas a'r Clerc.

1. **Ymddiheuriadau** – neb.

2. **Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar 3ydd o Hydref 2024.**

3. **Llofnodi cadarnhâd taliadau BACS Hydref 2024.**

4. **Datgan buddiant personol.** Cynghorydd Sian Angharad Parry – 7( a) Cais Cynllunio, **Cais rhif C24/0790/41/LL : Safle ger Tir Na Nog, Chwilog,** oherwydd ei bod yn perthyn i'r ymgeisydd.

5. **Cyfarfod Cyswllt Rheilffordd Arfordir y Cambrian –**
Cyfarfod ddydd Gwener, **29.11.2024** drwy Zoom. Roedd taflen wedi cael ei anfon at bawb i nodi unrhyw faterion i'w trafod, un a'i gan y Gweithredwr Trenau, Network Rail, y Bartneriaeth neu'r Pwyllgor yn gyffredinol. **Gofynwyd i'r Clerc anfon un cwestiwn, sef a oedd y bosib cael trenau i deithio'n hwyrach nol a blaen i Bwllheli gyda'r nos. Roedd y Cynghorydd Aled Evans yn gobeithio mynychu'r cyfarfod.**

6. **Gwaith Bioamrywiaeth** – wedi derbyn ebost gan Hywyn Williams, Swyddog Bioamrywiaeth, Cyngor Gwynedd yn dweud fod y gwaith o gynnal ymylon ffyrdd ar gyfer bioamrywiaeth wedi ei orffen eleni ar y lleoliadau o fewn y dalgylch. Os hoffem gael mwy o wybodaeth neu gyfle i ymestyn y ddarpariaeth yma yn y dyfodol, gellir trafod.

Mae'r adran hefyd yn gweithio efo tirfeddianwyr ar hyd y Lon Goed er mwyn gwella'r gynefin ar gyfer y dyfodol. Mae hyn wedi golygu cynnal trafodaethau efo'r tirfeddianwyr ynghyd a rhaglen ail blannu lle mae difrod y blynyddoedd wedi gadael ei hoel. Mi fydd yna waith dehongli newydd yn cael ei osod hefyd ynghyd a gwaith comisiwn newydd o gynnal sgyrsiau a darlithoedd cymunedol dros y misoedd nesaf ar hanes y thirwedd y Lon Goed. Roedd yn dweud y byddai'n gobeithio cael sgwrs am yr uchod efo'r Cyngor Cymuned yn fuan.

**Materion gan Cyngor Gwynedd**

7. **Ceisiadau cynllunio sydd angen penderfyniad:-**

   a) **Cais rhif C24/0790/41/LL : Safle ger Tir Na Nog, Chwilog**
   Adeiladu tŷ a modurdy, defnydd C3 - prif gartref. **Cefnogi.**

b) **Cais rhif C24/0691/41/LL – Safle ger Lleifior, Llangybi**
Codi un tŷ annedd (C3) a mynediad cysylltiedig gyda lle parcio.
**Gwrthod oherwydd fod y dyluniad yn anghydnaws a chymeriad y pentref.**

c) **Cais rhif C24/0776/41/RC - Bwthyn, Tŷ Croes, Llangybi,**
Cais i ddiddymu Cytundeb 106 "Person Lleol" oddi wrth eiddo anheddol.
**Gwrthod oherwydd nad oes digon o fanylion dros ei dynnu.**

8. **Sedd wag yn Ward Llanarmon**. Clerc wedi derbyn gwybodaeth gan Huw Elfed Williams, Swyddog Etholiadau yn dweud na wnaeth neb ymateb. Felly mae wedi anfon rhybudd hysbysiad cyfethol at y Clerc, ac mae wedi ei osod o flaen Neuadd Chwilog ar 04.11.2024 (a'r wefan) hefo dyddiad cau **25.11.2024** er mwyn medru cyfethol.

**Materion yn y gymuned**.

9. **Llanystumdwy**
**Amserlen bysiau Llanystumdwy** – cais yn dweud nad yw yr amserlen wedi cael ei adnewyddu ers tro, a bod yr amseroedd bws yn wahanol i'r rhai sydd ar wefan Cyngor Gwynedd. Hefyd mae'r 'perspex' yn felyn ac mae'n anodd iawn gweld drwyddo. **Clerc eisioes wedi cysylltu hefo Cyngor Gwynedd.**

10. **Rhoslan/Ynys**

**Lloches bws newydd, Maes Eifion, Rhoslan** – Cynghorydd Rhys Tudur wedi ymweld â'r safle, ac yn hapus gyda'r trefniadau. Anfonwyd ebost at weddill y Cynghorwyr, ac fe gytunwyd bod y Cyngor Cymuned yn fodlon cymryd perchnogaeth a chyfrifoldeb am gynnal a chadw'r lloches a'r llwybr troed sydd yn darparu mynediad iddi. **Y Clerc wedi hysbysu Alfie Waiting, Peiriannydd Prosiect, Cyngor Gwynedd.**

11. **Chwilog**

**Llwybr o Chwilog i Afonwen- Teithio Llesol**
Cynghorydd Rhys Tudur wedi derbyn gwybodaeth gan Iwan ap Trefor, Rheolwr Traffig a Phrosiectau yn dweud bod ganddynt 6 pwynt penodol y maent yn rhoi sylw iddynt sef:-

- Creu cynllun gwerthuso a monitoro.

Mae hyn wedi cael ei gwblhau. Maent wedi derbyn gwybodaeth ynglyn â'r nifer o ddefnyddwyr sy'n cerdded a beicio ar y ffordd ar hyn o bryd yn ogystal egluro sut y byddent yn monitro a gwerthuso llwyddiant y cynllun yn dilyn y gwaith adeiladu.

- Creu cynllun a rhestr ymgysylltu a'r rhandaliad.

Mae'r cynllun ymgysylltu a'r rhandaliad hefyd wedi ei gwblhau a'i diweddaru.

- Cysylltu â'r ysgol leol.

Nid oes cysylltiad wedi ei wneud eto gyda'r ysgol ond mi fydd hynny'n digwydd yn fuan.

- Cydnabod y llwybr rhwng Pwllheli a Cricieth fel llwybr Teithio Llesol presennol ac nid llwybr Teithio Llesol arfaethedig.

Mae'r Cyngor wedi derbyn arian eleni ar gyfer gwneud gwaith o flaen Ysgol Treferthyr. Fel rhan o'r cyfraniad ariannol ei bwriad yw i wella'r arwyddion ar y llwybr rhwng Cricieth a

Phwllheli fel y byddai modd cydnabod y llwybr canlynol fel llwybr Teithio Llesol presennol yn lle Llwybr Teithio Llesol arfaethedig.

- Cyflwyno mwy o wybodaeth parthed y gwaith adeiladu.

Maent wedi casglu mwy o wybodaeth sy'n dangos y manylder ar gyfer yr hyn maent yn awyddus i'w adeiladu.

- Gwybodaeth parthed y tiroedd.

  Yn ystod gwyliau'r Haf, mae'r peirianwyr wedi cael cyfle i siarad a thrafod y cynllun arfaethedig gyda'r tir feddianwyr perthnasol. Yn ôl gwybodaeth y maent wedi ei dderbyn mae'r tir feddianwyr yn gefnogol o'r bwriad i greu llwybr ar y rhan yma o'r ffordd, a hyd yn hyn, ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau negyddol i'r cynllun.

Dywedodd hefyd y byddai'n syniad da ceisio darganfod ffordd i gasglu a dehongli'r teimladau cryf o fewn y gymuned sy'n dangos yr angen am y ddarpariaeth, a'i bod yn credu byddai cynnal cyfarfod i drafod sut y gallent gyd-weithio i ddod a math o ddogfen at ei gilydd yn fuddiol iawn.

Mae'r Cynghorydd Rhys Tudur wedi ymateb drwy ddweud fod deiseb wedi ei gyflwyno i'r cyngor rai blynyddoedd yn ol a oedd yn cynnwys cannoedd o lofnodion, ac yn brawf o'r teimladau cryf sydd o blaid y llwybr yn lleol.
**Gofynnwyd i'r Clerc anfon llythyr at Iwan ap Trefor, i nodi ein bod yn gobeithio bydd y cais yn gyflawn erbyn Ionawr 2025, ac hefyd a fyddai'n bosib i ni gael copi drafft o'r cais, cyn iddo gael ei anfon at Llywodraeth Cymru, er mwyn i ni gael cyfle i'w graffu a gweld yr atebion.**

12. **Pencaenewydd/Sardis**
13. **Llangybi**
**Cae chwarae Llangybi** - derbyniwyd yr Adroddiad Blynyddol gan Fields in Trust 24.10.2024. Mae'r offer cylchdro a'r ddwy ffram siglen eisioes wedi cael ei peintio yn ystod yr haf.
**Gofynwyd i'r Clerc holi am bris i ailbeintio a thacluso'r fainc sydd yno. Penderfynwyd peidio adnewyddu'r matiau du am y tro, ac aros tan tua mis Mawrth i'w glanhau yn iawn hefo 'glanhawr pwerus'.**

14. **Materion Ariannol**
Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.
Roedd y Clerc wedi anfon ebost at y cynghorwyr i gyd cyn y cyfarfod, drwy gynnwys dogfen 'excel' o'r sefyllfa ariannol hyd at 31.10.2024. Roedd hyn yn cadw golwg manwl ar y gwariant sydd eisioes wedi ei wneud.

15. **Cof Eifionydd** – y Clerc wedi anfon ebost at Mr Sion Blake yn cynnig yr arian grant £2,000.00 gan Gronfa Elw Park Jones yn nol a dderbyniwyd ganddynt ar 29.06.2022, yn bendodol oherwydd diffyg amser i greu y wefan.
Derbyniwyd ebost ganddo yn diolch, ac yn rhoi manylion banc y Gronfa er mwyn ei dalu nol iddynt. **Cytunwyd i dalu'r swm yma yn nol iddynt drwy ffurf BACS yn dilyn y cyfarfod.**

16. **Model Polisi Rheoliadau Ariannol 2024 newydd** wedi ei dderbyn gan Un Llais Cymru. Bydd angen i'r Pwyllgor Polisi edrych arnyn nhw fel y gellir ei cymeradwyo a'i mabwysiadu yn lle y rhai cyfredol a wnaed ar 03.06.2021. **Heb benderfynu ar ddyddiad i gynnal cyfarfod eto.**

17.**Cyfarfod Cyllid/Busnes** – wedi cael ei gynnal o flaen y prif gyfarfod i drafod rhagolwg cyllid/cyllideb am y flwyddyn 01.04.2025 – 31.03.2026, a phenderfynu'r praesept am y flwyddyn 01.04.2025 ymlaen. Cynigiwyd codi'r praesept o £20,000.00 i £20,500.00 oherwydd chwyddiant (tua 2.5%). Bydd y manylion yn cael ei trafod yn cyfarfod mis Rhagfyr 2024, a bydd angen penderfyniad terfynol ar y praesept.

18. **Elusen William Ellis** – angen rhoi hysbyseb yn Y Ffynnon ac ar yr hysbysfwrdd yn Llanystumdwy fis Tachwedd, hefo dyddiad cau i dderbyn cais erbyn 28.11.2024. Bydd y ceisiadau yn cael ei trafod yn dilyn y prif gyfarfod nesaf ar 05.12.2024.

19. **Hysbyseb ceisiadau am Gymorth Ariannol** – gan fudiadau o fewn dalgylch y Cyngor. Bydd angen ei roi yn rhifyn Tachwedd a Rhagfyr 2024 o'r Ffynnon, ac ar yr hysbysfyrddau gyda dyddiad cau 15.01.2025.

20. **Graddfa cyflogau clercod yn codi'n genedlaethol yn nol i'r 01.04.2024** – derbyniwyd gwybodaeth gan Un Llais Cymru (25.10.2024), yn cadarnhau fod y Gwasanaethau Llywodraeth Leol (NLC) wedi codi cyflog clercod sydd ar pwynt 24 o £17.16 yr awr i £17.79. **Derbyn**.

21. **Taliadau** BACS angen cael ei gwneud yn dilyn y cyfarfod:

| **Enw/Rheswm** | Rheswm | Pris<br>£ | TAW | Cyfanswm Taliad<br>£ | Taliad BACS<br>£ |
|---|---|---|---|---|---|
| Cronfa Elw Park Jones | Creu gwefan Cof Eifionydd- talu'r arian yn nol i'r gronfa | **2000.00** | | **2000.00** | **2000.00** |

22. Cyflog mis Hydref 2024 y Clerc i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM.

| **Enw/Rheswm** | Swm<br>£ | Cyfanswm Taliad net<br>£ | Taliad BACS:-<br>£ |
|---|---|---|---|
| Cyflog sylfaenol y Clerc, Hydref 2024<br>35 awr y mis x £17.79 = £622.65<br>-ac ol-daliad codiad cyflog cenedlaethol o £17.16 i £17.79 yr awr Rhwng 01.04.24- 30.09.24, sef 0.63 yn fwy yr awr x 35 awr y mis = £22.05 x 6 mis = 132.30<br>A 12 awr ychwanegol fis Mai wrth wneud y gwaith archwilio, 0.63x12 = £7.56 | 622.65<br>132.30<br>7.56<br>762.51<br>Llai treth- £152.50 = **£610.01** | **610.01** | **610.01** |
| Cyllid a Thollau EM Treth ar enillion y Clerc Hydref 2024 a'r ol-daliad | 762.51 x 20% = **£152.50** | **152.50** | **152.50** |
| Costau swyddfa'r Clerc Hydref 2024 | £26.00 | **26.00** | **26.00** |

**Materion hwyr**

23. **<u>Llygod mawr ger Melin Plas Du</u>** – gofynnwyd i'r Clerc hysbysu'r Cyngor.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Iau **<u>05.12.2024</u>** fydd y cyfarfod nesaf, yn Neuadd Chwilog a drwy Zoom.

**<u>It is possible to get an English translation of any minute, please contact the Clerk.</u>**